**Albert Heaney CBE**
**Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Chief Social Care Officer for Wales**

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Athro Alexis Jay OBE
Cadeirydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Ebrill 2023

Annwyl Athro Jay

**PARTHED: Adroddiad Terfynol IICSA**

Diolch am y gwaith helaeth mae'r Ymchwiliad wedi'i wneud, drwy ei ymchwiliadau, ei waith ymchwil a'r Prosiect Gwirionedd, mewn perthynas â methiannau sefydliadol hanesyddol i amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol, a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad terfynol. Rwy'n croesawu gwaith meddwl, ystyriaeth ac ymdrechion y tîm IICSA a'r panel wrth ddod i'r casgliadau hyn a nodi meysydd sy'n peri pryder parhaus.

Gwnaed chwech o argymhellion yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ac, fel ei chynrychiolydd enwebedig, rwy'n ysgrifennu i'ch cynghori am ein hymateb i bob un ohonynt.

Byddwch yn gweld ein bod wedi nodi naratif ar gyfer pob argymhelliad, lle bo hynny'n bosibl, yn bennaf lle rydym eisoes wedi gwneud gwaith yn y maes hwn. Mae'r argymhellion a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru yn gofyn am wyliadwriaeth barhaus a gweithgarwch parhaus y byddwn yn mynd ar eu trywydd dros y blynyddoedd i ddod. Rydw i wedi nodi ein hymateb i bob argymhelliad isod a, lle mae gennym fwy o waith i'w wneud, rydym yn bwriadu cyflawni ysbryd bwriadau'r Ymchwiliad.

Rwy'n ddiolchgar i dîm yr Ymchwiliad a phawb a oedd yn rhan ohono am eu diwydrwydd medrus i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn briodol, ac i banel yr Ymchwiliad, a chi fel Cadeirydd, am eich ffocws a'r ffordd y gwnaethoch ymdrin â'r gwrandawiadau, y Prosiect Gwirionedd a'r gwaith ymchwil sy'n parhau i ychwanegu cymaint o werth i'r maes diogelu. Yn benodol, rwy'n ddiolchgar i'r holl ddioddefwyr a goroeswyr a roddodd eu tystiolaeth ac a rannodd eu profiadau a'u straeon am sut y cawsant eu siomi a'r hyn y maent yn teimlo sydd angen ei newid. Mae ein dyled yn fawr iddyn nhw i gyd.

Yn gywir

**Albert Heaney CBE**
**Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 3481
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD TERFYNOL YR YMCHWILIAD ANNIBYNNOL I GAM-DRIN PLANT YN RHYWIOL.**

**Argymhelliad 1: Set ddata graidd unigol**

Mae'r Ymchwiliad yn argymell y dylai llywodraeth y DU a **Llywodraeth Cymru** wella'r data a gesglir gan asiantaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau cyfiawnder troseddol am gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant drwy gyflwyno un set ddata graidd unigol ar gyfer Cymru a Lloegr. Er mwyn hwyluso hyn, dylai'r asiantaethau hyn gynhyrchu data cyson a chydnaws am gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cynnwys y canlynol:

- nodweddion dioddefwyr ac unigolion yr honnir eu bod wedi cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys oedran, rhyw ac ethnigrwydd;

- ffactorau sy'n golygu bod dioddefwyr yn fwy agored fel plant i gael eu cam-drin yn rhywiol neu i rywun gamfanteisio'n rhywiol arnynt; a
- y lleoliadau a'r cyd-destunau lle mae plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol a lle y cam-fanteisir yn rhywiol ar blant.

Dylid llunio data am gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a'u cyhoeddi'n rheolaidd. Dylid gallu coladu'r data hyn yn genedlaethol yn ogystal ag ar lefelau rhanbarthol neu leol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: DERBYN**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i gasglu data craidd fel yr amlinellir yn ein Fframwaith Perfformiad a Gwella. Mae'r data hwn yn cynnwys set fanwl o ddangosyddion ar ddiogelu plant, gan gynnwys manylion am nifer y plant sy'n cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, eu hoedran a'u categorïau cam-drin, camfanteisio ar blant, nifer y cyfarfodydd ac ymholiadau, a chanlyniadau'r cyfarfodydd hynny. Mae'r manylion yn *Diogelu plant (llyw.cymru)*

Byddwn yn parhau i adolygu cynnwys ac ansawdd y data hwn i sicrhau ein bod yn cipio'r data angenrheidiol mewn modd cymesur. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i ddiweddaru'r casgliad data hwn i gynnwys manylion troseddwyr, lleoliadau neu gyd-destun y cam-drin.

Ochr yn ochr â hyn, mae Amcan 8 yn ein Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i gasglu data mewn ffordd gyson a chydweithredol er mwyn darparu cymhariaeth ystyrlon, ac un sy'n rhoi cyd-destun a darlun o gam-drin yng Nghymru. Mae ein Byrddau Diogelu Rhanbarthol eisoes yn bwrw ymlaen â gwaith ar systemau a dulliau o gipio tystiolaeth ynghylch pa mor gyffredin



Parc Cathays ☎ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ☎ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

yw cam-drin plant yn rhywiol yn eu rhanbarth. Cyflwynwyd enghraifft o arfer da mewn perthynas â Phowys hefyd, a gellir defnyddio'r enghraifft honno i lywio meysydd eraill.

Mae Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag cam-drin plant yn rhywiol, a gytunwyd gan Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn cynnwys dolen i ganllawiau ymarfer. Bydd yr adnodd ymarfer hwn yn helpu i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Hefyd, mae Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi sefydlu gweithgor er mwyn datblygu dull ymarfer a all helpu i adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE). Mae Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar gael yn: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p10/

Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y ffordd orau o fonitro effaith y dulliau ymarfer hyn o ran helpu i adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a gwella tystiolaeth ynghylch natur a pha mor gyffredin yw'r cam-drin hwnnw. Byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglen gydlynol i wella'r broses o gasglu data sy'n caniatáu dadansoddi cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar lefel leol a rhanbarthol. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i geisio uno dulliau casglu a dadansoddi data ar gyfer set ddata graidd unigol.

**Argymhelliad 2: Awdurdodau Amddiffyn Plant ar gyfer Cymru a Lloegr**

Mae'r Ymchwiliad yn argymell bod llywodraeth y DU yn sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant ar gyfer Lloegr a bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant ar gyfer Cymru.
Dylai diben pob Awdurdod gynnwys y canlynol:

- gwella arferion amddiffyn plant;
- rhoi cyngor a gwneud argymhellion i'r llywodraeth mewn perthynas â pholisi amddiffyn plant a diwygio er mwyn gwella amddiffyn plant; ac
- arolygu sefydliadau a lleoliadau fel y gwêl yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Dylai'r Awdurdodau Amddiffyn Plant yng **Nghymru** a Lloegr hefyd fonitro'r broses o roi argymhellion yr Ymchwiliad ar waith.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: DERBYN.**

Yng Nghymru, mae swyddogaethau cenedlaethol gwella ymarfer ym maes amddiffyn plant a rhoi cyngor a gwneud argymhellion i'r llywodraeth ar bolisi a diwygio yn y materion hyn wedi'u dynodi'n bennaf i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB), o dan adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan gyrff eraill, gan gynnwys byrddau diogelu rhanbarthol ac arolygiaethau statudol, rheoleiddwyr gwasanaethau a'r gweithlu, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, i gyd gyfraniad allweddol i'w wneud o ran craffu ar drefniadau diogelu cenedlaethol a'u llywio. Mae swyddogaethau craidd NISB, a nodir yn adran 132(2), yn cydberthyn yn agos i'r ddau ddiben cyntaf a gynigir yn yr argymhelliad hwn. Yr unig wahaniaeth arwyddocaol yw bod swyddogaethau NISB yn ymdrin â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ⁂ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ⁂ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

Er hwylustod, nodir y cyfeiriad at A132 isod:

132. Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
(1) Bydd bwrdd o'r enw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y Bwrdd Cenedlaethol").
(2) Dyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol yw—
(a) rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol,
(b) cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru, ac
(c) gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny.
(3) O ran y Bwrdd Cenedlaethol—
(a) rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru,
(b) rhaid iddo gyflwyno unrhyw adroddiadau eraill sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, ac
(c) caiff gyflwyno unrhyw adroddiadau eraill y gwêl yn dda.

O ganlyniad, ystyriwn fod gennym ni yng Nghymru gorff sy'n cydymffurfio'n sylweddol â dwy elfen gyntaf yr argymhelliad hwn. Mae swyddogaethau arfaethedig Awdurdod Amddiffyn Plant yn bodoli i raddau helaeth eisoes o fewn y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sefydledig, yr ydym wedi eu gwahodd i fonitro'r broses o roi argymhellion terfynol yr Ymchwiliad ar waith.

Mewn perthynas â'r swyddogaeth arolygu a gynigir yn yr argymhelliad hwn, mae gan nifer o wahanol gyrff bwerau i arolygu sefydliadau neu leoliadau perthnasol eisoes e.e. Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal plant, gofal cymdeithasol rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol; Estyn ar gyfer ysgolion, colegau, addysg uwch ac addysg oedolion; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol a deintyddiaeth breifat; yn ogystal ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac Arolygiaeth Prawf EF.

Mae'r gallu i gynnal arolygiadau ar y cyd a threfniadau i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol eisoes yn bodoli. Ailddechreuodd y Rhaglen Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ym mis Chwefror 2023. Bydd hwn yn adolygiad systemau o amddiffyn plant ym mhob bwrdd diogelu rhanbarthol ac ardal heddlu yng Nghymru, er mwyn nodi arferion cadarnhaol ac unrhyw feysydd i'w gwella. Bydd rhaglen 2023/24 yn canolbwyntio ar amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod. Ers mis Mawrth 2022, mae Estyn wedi treialu dull newydd o arolygu hefyd, gyda ffocws cryfach ar drefniadau diogelu a lles, dealltwriaeth, diwylliant, arweinyddiaeth, rheolaeth a gwerthuso mewn ysgolion.

Pe bai swyddogaethau arolygu sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn cael eu rhoi i gorff newydd, byddai angen cymryd gofal sylweddol i ddeall sut y byddai'r rhain yn gweithredu ochr yn ochr â'r arolygiaethau sefydledig heb ddyblygu; tanseilio eu heffaith; neu effeithio'n andwyol ar eu hawdurdod neu eu hygrededd a'r arbenigedd y maent eisoes wedi'i adeiladu.



Parc Cathays ● Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

**Argymhelliad 3: Gweinidog y Cabinet dros Blant**

**Llywodraeth y DU**
Mae'r Ymchwiliad yn argymell bod llywodraeth y DU yn creu swydd weinidogol ar lefel y cabinet ar gyfer plant.

**Llywodraeth Cymru**
Mae'r Ymchwiliad yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyfrifoldeb gweinidogol ar lefel y cabinet dros blant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: DERBYN**

Mae gan bedwar Gweinidog gyfrifoldeb dros blant, ac mae dau ohonynt yn mynychu'r Cabinet. Dyma'r Gweinidogion:

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Diogelu
- Gwasanaethau mabwysiadu a maethu
- Eiriolaeth plant a phobl ifanc, gan gynnwys cwynion, sylwadau ac eiriolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rhannu gwybodaeth o dan Ddeddf Plant 2004
- Goruchwylio CAFCASS Cymru
- Polisi a goruchwylio darpariaeth holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau statudol
- Goruchwylio Gofal Cymdeithasol Cymru
- Rheoleiddio gofal preswyl, gofal cartref, lleoliadau i oedolion, gofal maeth, darpariaeth gofal i blant o dan 8 oed a gofal iechyd preifat
- Arolygu darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol gan Awdurdodau Lleol (drwy Arolygiaeth Gofal Cymru), ac adrodd arnynt, gan gynnwys adolygiadau ar y cyd o wasanaethau cymdeithasol ac ymateb i adroddiadau
- Hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys y cynnig Gofal Plant a'r gweithlu
- Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar
- Dechrau'n Deg ar gyfer plant 0-3 oed
- Teuluoedd yn Gyntaf a pholisïau chwarae
- Iechyd
- Addysg



Parc Cathays ⍉ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ⍉ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

| |
|---|
| Gan fod Llywodraeth Cymru a'i chabinet wedi llofnodi confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, rydym o'r farn bod yn rhaid i bob cyngor i Weinidogion Cymru roi sylw i'r confensiwn a hawliau plant. Mae'r cyfrifoldeb cyfunol hwn ar gyfer plant ar draws y cabinet yn dod â dimensiwn ychwanegol i ddod â ffocws ar hawliau'r plentyn ar draws y llywodraeth yn hytrach nag ar seilo plant i mewn i berson sengl. Ystyriwn fod hyn yn ddigon i gydymffurfio â'r argymhelliad. |
| **Argymhelliad 4: Ymwybyddiaeth y cyhoedd**<br><br>Mae'r Ymchwiliad yn argymell bod llywodraeth y DU a **Llywodraeth Cymru**<br>yn comisiynu rhaglenni rheolaidd o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin plant<br>yn rhywiol a'r camau y dylid eu cymryd os bydd plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol neu os amheuir bod hyn yn digwydd<br>yng Nghymru a Lloegr. Dylai'r rhaglenni:<br><br>• herio mythau a stereoteipiau ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol;<br>• gwneud y defnydd mwyaf o ddulliau gwahanol gan gynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, defnyddio modelau rôl cadarnhaol a'r cyfryngau creadigol, megis dramâu teledu, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;<br><br>a<br>• chael eu cefnogi gan waith gwerthuso parhaus er mwyn mesur eu heffaith.<br><br>**Ymateb Llywodraeth Cymru: DERBYN.**<br><br>Gan adeiladu ar waith presennol Llywodraeth Cymru o ran comisiynu ymgyrch gyhoeddusrwydd flynyddol fel rhan o'n Hwythnos Genedlaethol Diogelu, sy'n cael ei hyrwyddo gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, byddwn yn comisiynu rhaglenni rheolaidd o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gam-drin plant yn rhywiol a'r camau y dylid eu cymryd os bydd plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol neu os amheuir bod hyn yn digwydd yng Nghymru. Byddwn yn edrych ar opsiynau cynnwys, gan gynnwys herio mythau a stereoteipiau am gam-drin plant yn rhywiol gan ddefnyddio dulliau gwahanol, a byddwn yn sicrhau bod unrhyw ymgyrchoedd yn cael eu cefnogi gan werthusiad parhaus i fesur eu heffaith.<br><br>Rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith hwn. |
| **Argymhelliad 13: Adrodd mandadol**<br><br>Mae'r Ymchwiliad yn argymell bod llywodraeth y DU a **Llywodraeth Cymru** yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd statudol ar rai unigolion – 'y rhai dan fandad i roi adroddiad' – i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol pan fyddant:<br><br>• yn cael datgeliad o gam-drin plant yn rhywiol gan blentyn neu gamdriniwr; neu<br>• yn gweld plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol; neu<br>• yn arsylwi ar ddangosyddion cydnabyddedig cam-drin plant yn rhywiol. |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ☎ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ☎ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

Dylid dynodi'r bobl ganlynol yn 'rhai dan fandad i roi adroddiad':

- unrhyw berson sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir mewn perthynas â phlant (o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, fel y'i diwygiwyd);
- unrhyw berson sy'n gweithio mewn swydd o ymddiriedaeth (fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol

2003, fel y'i diwygiwyd); a

- swyddogion yr heddlu.

At ddiben adrodd mandadol, dylid dehongli 'cam-drin plant yn rhywiol' fel unrhyw weithred a fyddai'n drosedd o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 lle mae'r dioddefwr honedig yn blentyn dan 18 oed.

Lle mae'r plentyn rhwng 13 ac 16 oed, ni fyddai angen rhoi adroddiad lle bo'r sawl dan fandad i roi adroddiad yn credu:

- bod y berthynas rhwng y partïon yn gydsyniol ac nad yw'n fygythiol, yn gamfanteisiol nac yn orfodaethol;

ac

- nad yw'r plentyn wedi cael ei niweidio ac nad yw'n wynebu risg o gael ei niweidio; ac
- nad oes gwahaniaeth sylweddol o ran gallu nac aeddfedrwydd y partïon sy'n rhan o'r gweithgaredd rhywiol dan sylw, ac nad oes mwy na thair blynedd rhyngddynt o ran oedran.

Fodd bynnag, ni ddylai'r eithriadau hyn fod yn gymwys pan fo'r camdriniwr honedig mewn swydd o ymddiriedaeth o fewn ystyr Deddf 2003.
Lle bo'r plentyn dan 13 oed, rhaid rhoi adroddiad bob amser. Dylid rhoi adroddiad naill ai i adran gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol neu'r heddlu cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai fod yn drosedd i'r rhai dan fandad i roi adroddiad fethu â rhoi adroddiad am gam-drin plant yn rhywiol pan fyddant:

- yn cael datgeliad o gam-drin plant yn rhywiol gan blentyn neu gamdriniwr; neu
- yn gweld plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Yng Nghymru, rydym yn credu'n gryf fod cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu a bod diogelwch a lles unigolion yn hollbwysig.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswyddau presennol i roi gwybod am oedolion a phlant sy'n wynebu risg drwy adrannau 128 a 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r rhain yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar 'bartneriaid perthnasol' awdurdodau lleol – Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, yr Heddlu, y Gwasanaethau Prawf, Timau Troseddau Ieuenctid ac awdurdodau lleol eraill – i hysbysu'r awdurdod pan fo ganddynt achos rhesymol dros amau bod oedolyn sy'n wynebu risg neu blentyn yn dioddef neu'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu, yn achos plant, niwed. Yna, rhaid i'r awdurdod lleol wneud pa bynnag ymholiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol (neu beri iddynt gael eu gwneud) i benderfynu a ddylid cymryd camau pellach.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ☏ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ☏ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

Ym mis Awst 2022, manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth (sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG) i archwilio safbwyntiau ar ymestyn y dyletswyddau hyn i gyflwyno adroddiad, a gwahodd sylwadau ynghylch a ddylent fod yn berthnasol yn uniongyrchol i unigolion. Derbyniwyd amrywiaeth eang o ymatebion – gan unigolion, ymarferwyr, darparwyr, sefydliadau cyhoeddus/statudol, sefydliadau annibynnol, sefydliadau trydydd sector/sector gwirfoddol a sefydliadau cynrychiadol – heb unrhyw gonsensws na galwadau am archwilio ac ymgynghori pellach i ystyried manylion, ehangder ac effeithiau unrhyw ddyletswyddau newydd.

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor, lle bu datgeliad (gan blentyn neu gamdriniwr); tystiolaeth; neu arsylwi ar ymddygiad neu dystiolaeth arall bod plentyn yn dioddef cam-drin rhywiol, neu'n wynebu risg ohono, rhaid i'r achosion hyn gael eu hadrodd ar unwaith, naill ai i'r awdurdod lleol perthnasol neu i'r Heddlu, fel y bo'n briodol. Gellid adrodd am bryderon drwy arweinwyr diogelu dynodedig sefydliadau – yn ôl canllawiau perthnasol neu bolisïau a gweithdrefnau lleol – neu drwy lwybrau cymorth eraill, gan gynnwys elusennau blaenllaw.

Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau allweddol o ran y dull adrodd mandadol yng Nghymru o gymharu â'r hyn a gynigiwyd gan yr Ymchwiliad. Mae ein hymarfer a'n deddfwriaeth yn ymwneud â phlant ac oedolion a allai fod yn dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu, yn achos plant, niwed, neu'n wynebu risg o'r pethau hynny; tra bod argymhelliad yr Ymchwiliad (o ystyried ei gylch gwaith statudol) yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Mae ein gofynion adrodd yn seiliedig ar sefydliad, tra bod yr Ymchwiliad yn cynnig dyletswydd statudol ar 'y rhai dan fandad i roi adroddiad' – unigolion penodol, fel y'u diffinnir yn yr argymhelliad.

Rydym yn cydnabod hefyd bod yr Ymchwiliad yn argymell cosb droseddol am fethu ag adrodd lle mae unigolyn yn derbyn datgeliad (gan blentyn neu gamdriniwr) neu'n dyst i gam-drin plant yn rhywiol. Nid oes sancsiynau troseddol ynghlwm wrth ddyletswyddau Cymru ond, er mwyn gallu cydymffurfio â nhw, bydd angen i 'bartneriaid perthnasol' fod â pholisïau, gweithdrefnau a chymorth corfforaethol effeithiol ar waith i sicrhau bod y rhai sy'n arfer swyddogaethau ar eu rhan (h.y. eu staff, contractwyr, gwirfoddolwyr) yn gwybod eu cyfrifoldebau, yn deall digon ac yn cael eu galluogi i weithredu'n unol â'r dyletswyddau hynny. Bydd llawer o'r rhai sy'n gweithio i 'bartneriaid perthnasol' neu ar eu rhan yn cael eu cofrestru gyda chyrff proffesiynol, ac yn gorfod cydymffurfio â'u codau ymddygiad a'u hadolygiadau cymhwyster i ymarfer. Felly, bydd gan lawer o unigolion, gan gynnwys athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr gofal cymdeithasol, swyddogion yr heddlu a swyddogion prawf rwymedigaethau cytundebol a phroffesiynol i roi gwybod am bryderon, ac mae canlyniadau disgyblu ar gael.

Yn dilyn ein hymgynghoriad cychwynnol a'n hystyriaeth o Argymhelliad 13, yn y cyd-destun diogelu ehangach ac yng ngoleuni canfyddiadau ehangach a wnaed gan yr Ymchwiliad – gan gynnwys y rhai yn ymwneud â blaenoriaethu amddiffyn plant a chreu amgylchedd mwy diogel – rydym yn bwriadu cryfhau a gwella cydymffurfiaeth â'n fframweithiau rheoleiddio ar draws gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cefnogi ffocws, cysondeb a gwyliadwriaeth o ran amddiffyn ac ymarfer diogelu drwy atgyfnerthu elfennau

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ☎ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ☎ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

allweddol o Weithdrefnau Diogelu Cymru – gan gynnwys adrodd am blant ac oedolion sy'n wynebu risg – a bydd yn cynorthwyo camau gorfodi yn erbyn darparwyr, lle bo angen.

Er enghraifft, yn gysylltiedig ag argymhellion a wnaed yn Adroddiad yr Ymchwiliad i Ysgolion Preswyl, bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r drefn reoleiddio'n ymwneud ag ysgolion annibynnol yn ystod y misoedd nesaf a bydd yn cynnwys cwestiwn am osod gofyniad ar berchnogion i hysbysu'r awdurdod lleol pan fo plentyn, sy'n ddisgybl yn yr ysgol, yn dioddef neu'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Byddwn yn ymgynghori hefyd ar reoliadau i ddynodi 'Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig' yn wasanaeth a reoleiddir, o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Yn ystod tymor y Senedd hon, byddwn yn adeiladu ar gyhoeddi ein Cod Ymarfer Diogelu, i ymgysylltu'n eang ac archwilio safbwyntiau ar sicrhau bod gan eraill sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg – megis sefydliadau gwirfoddol, chwaraeon a ffydd – drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith. A byddwn yn ceisio barn bellach am oblygiadau gosod dyletswyddau i roi gwybod am blant ac oedolion sy'n wynebu risg ar unigolion fel rhan o'r sgwrs ar y camau nesaf.

Byddwn yn cyfuno hyn â mesurau pellach i hyrwyddo mynediad at hyfforddiant ac adnoddau effeithiol ar gyfer ymarferwyr; a chodi a chynnal ymwybyddiaeth y cyhoedd o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed, a'r camau hanfodol i'w cymryd pan fo hyn yn digwydd neu os amheuir bod hyn yn digwydd. Bydd hyn yn cael ei lywio gan well dealltwriaeth o'r hyn sy'n atal pobl rhag rhoi gwybod am bryderon a bydd yn ceisio rhoi hyder i unigolion geisio'r cymorth sydd ei angen arnynt neu wybod sut i ymateb i eraill, i helpu i leihau peryglon a sicrhau cymorth i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

**Argymhelliad 16: Cymorth therapiwtig arbenigol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol**

Mae'r Ymchwiliad yn argymell y dylai llywodraeth y DU a **Llywodraeth Cymru** gyflwyno gwarant genedlaethol y bydd plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael cynnig cymorth therapiwtig arbenigol ac achrededig. Dylai fod cyflenwad digonol o'r gwasanaethau hyn fel y gall plant ym mhob rhan o Gymru a Lloegr gael cymorth yn brydlon.
Dylai'r gwasanaethau hyn gael eu hariannu'n llawn. Awdurdodau lleol a ddylai fod yn gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau hyn.

Ni ddylai fod meini prawf cymhwysedd er mwyn i blant gael y gwasanaethau therapiwtig arbenigol hyn, ar wahân i'r ffaith eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: DERBYN MEWN EGWYDDOR**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael cynnig cymorth therapiwtig arbenigol, fodd bynnag rydym yn derbyn mewn egwyddor ar y sail bod angen inni ystyried, gyda phartneriaid, yr opsiynau ar gyfer comisiynu a darparu'r cymorth hwn. Mae Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn brosiect gwella, a arweinir gan Gydweithrediaeth y GIG, sy'n gweithio gyda'r Heddlu a



Parc Cathays ⁂ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ⁂ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector arbenigol. Mae'r rhaglen yn ysgogi darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant/unigolion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth a thrais rhywiol, gan roi lle canolog i lais y dioddefwyr. Mae'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, ac mae ei aelodau'n cynnwys y GIG, yr Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, darparwyr y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru.

Mewn partneriaeth â'r trydydd sector, mae byrddau iechyd, heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cytuno ar fodel gwasanaeth ar gyfer cyflawni gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Ne Cymru, Dyfed Powys a Gwent. Mae'r Gogledd wedi ymuno â'r rhaglen hefyd ac yn gweithio gyda'r rhaglen ar ddyluniad eu gwasanaethau. Bydd y model yn cynnig gwasanaeth mwy integredig a gaiff ei lywio gan anghenion dioddefwyr a chleifion ac a fydd yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni canllawiau a safonau clinigol, fforensig, ansawdd a diogelwch, gan sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn.

Caiff Straen Trawmatig Cymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (£1.2 miliwn y flwyddyn). Ei nod yw gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed yng Nghymru sy'n byw gydag anhwylder straen wedi trawma (PTSD) neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth (CPTSD), neu sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflyrau hyn. Menter genedlaethol yw Straen Trawmatig Cymru sy'n gweithio trwy gyfrwng rhwydwaith o wasanaethau lleol hygyrch sy'n canolbwyntio ar y bobl y maent yn ceisio'u helpu, a hynny trwy gynnig llwybrau gofal symlach er mwyn osgoi gorfod asesu ac atgyfeirio dro ar ôl tro yn ddiangen. Mae'r fenter yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion, ac mae pob rhanddeiliad perthnasol – yn cynnwys pobl â phrofiad o fyw gydag anhwylder straen wedi trawma neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth – yn creu, yn darparu ac yn berchen ar y fenter hon ar y cyd.

Mae gan Straen Trawmatig Cymru nifer o ffrydiau gwaith gwahanol sy'n canolbwyntio ar ymosodiadau rhywiol, cyfiawnder troseddol, mudwyr dan orfod, trawma amenedigol, oedolion a phobl ifanc, yn ogystal ag asesu, data craidd a chanlyniadau.

Mae'r Ffrwd Waith Ymosodiadau Rhywiol yn grŵp Cymru gyfan sy'n cynnwys pobl sy'n gweithio mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) ac mewn gwasanaethau eraill lle darperir gofal a chymorth i bobl sydd wedi profi trawma rhywiol. Nod y grŵp yw datblygu llwybrau gofal effeithiol ar gyfer trawma ym mhob bwrdd iechyd – llwybrau cydgysylltiedig ac integredig ar draws gwasanaethau. Mae'r grŵp yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau iechyd, mudiadau gwirfoddol a gwasanaethau statudol. Mae'n datblygu fframweithiau cymwyseddau a fydd yn ategu mentrau hyfforddi ar gyfer staff rheng flaen yn ogystal ag ar gyfer darparu therapïau trawma. Cadeirydd y ffrwd waith Ymosodiadau Rhywiol yw arweinydd y Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru hefyd.

Mae gwaith yn cael ei gynllunio yng Nghymru i fapio'r ddarpariaeth gwnsela bresennol i blant a phobl ifanc ac oedolion – er mwyn deall ansawdd a maint y ddarpariaeth yng Nghymru'n well. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i ddatblygu eitemau data safonol ar



Parc Cathays ☎ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ☎ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru

fynediad at wasanaethau, fel rhan o ffrwd waith monitro ac adrodd, o dan Raglen Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cymru.

Bydd defnyddio dull sy'n cael ei lywio gan drawma o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn hollbwysig – yn unol â'r fframwaith trawma Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ⁂ Cathays Park
Ffôn ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ⁂ Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@llyw.cymru